Tel: 07462138885 / 01267 253956
Email: pureshinewindowcleaning@gmail.com
Facebook: Pure Shine

**THE OLD DAIRY DOG HOTEL**
Seven Brand new luxury kennels
Spacious individual kennels with their own covered patio area
Underfloor heating for our guests' comfort
18 acres of private grounds to exercise
Fully licensed,
30 years' experience caring for clients' dogs
To view our kennels phone 01267 281628
or 07717 345277
or email www.theolddairydoghotel.co.uk

***Gwyrdd Enterprises***
Property Maintenance - Household Repairs
Patio Cleaning - Drain unblocking
Carpet, Rug and Upholstery Cleaning
Car Battery Diagnosis, Jumpstarting & Replacement.
TV and computer Set Up
**If you can't see what you need just ask**
**Contact Jon** 07943 948173
**Based in Llanpumsaint**
Gwyrddenterprises@gmail.com

Hafan Holistaidd
Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology
Tyluno / Aromatherapy Massage
Indian Head Massage
Thermal-auricular (Ear candling)
Reiki
**Meleri Brown MAR**
mels.brown@hotmail.co.uk 07855488660
**Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist**
Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin, SA33 6LT

***Tom Eldred***
Saer Coed - Carpentry
All aspects of carpentry undertaken including roofing, timber frames, stud work, decking, tiling, flooring and kitchens.
Tel - 07854 167670
Pantyffordd, Llanpumsaint, SA33 6BU

Peace Massage Therapy
A Holistic Therapy Service offering a bespoke Treatment based on Healing and providing Relief
**Victoria Peace 07967946873**
www.peace-massage-therapy.co.uk

**Local Business?** You can advertise here for £50
Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on www.llanpumsaint.org.uk, or just £5 an issue for advertising in Village Voice.
***Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or email info@llanpumsaint.org.uk***

*Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter*




# Llais y Llan Hydref 2022

## Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 mis Tachwedd  2022

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT
COEDWIG GORLLEWIN BRECHFA
BRECHFA FOREST WEST WIND FARM
COMMUNITY FUND

**Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol**
www.llanpumsaint.org.uk   info@llanpumsaint.org.uk
Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan




Stondin Llaeth Cwmwernen yn ail-greu'r gorffenol



Dewi'n mesur y blodyn haul anferth



Swyn aur y llinos ifanc– Nico
(Clare Bishop)

# Pencampwr Prydain yn Llanpumsaint

Bu Iestyn Jones sy'n 16eg oed yn cystadlu drwy'r tymor wrth olwyn ei Nissan Micra adeiladwyd adre yng Nghynghrair De Cymru ar gyfres Aurograss Prydain.  Cynhelir y gystadleuaeth hon dros bum rownd ar draws Prydain gyda'r tri uchaf eu pwyntiau yn cystadlu am y brig.

Felly mynd amdani fyddai hi yn y ffeinal.  Yn y bumed safle oedd Iestyn wrth wynebu'r 8 arall yno, ond gan fod pawb yn agos fe wyddai fod siawns ganddo lwyddo ar y penwythnos tyngedfennol.  A dyna a wnaeth drwy ennill pob rhagras a chyrraedd y brig o ran pwyntiau i'w goroni  yn Bencampwr Prydain yn yr Adran Iau Salwn.




Dywedodd ei dad Dafydd Jones, wnaeth adeiladu a chynnal y cerbyd drwy'r tymor, *"Bu eleni'n flwyddyn anhygoel.  Gan mae hon fyddai tro olaf Iestyn yn yr Adran Iau gwnaethom ganolbwyntio ar ei gyfle olaf i ennill.  Talodd yn ôl ar ei ganfed yn ein ffydd ynddo gan iddo gipio Pencampwriaeth  Iau TeifiAutograss, Pencampwr Adran Iau De Cymru, ac ail yn y gystadleuaeth genedlaethol, ac yna Pencampwr Salwn Prydain. Diolchaf i'n noddwyr oherwydd hebddynt hwy fyddai hyn i gyd wedi bod yn bosib. Diolch i'm cymar Dei am ei chefnogaeth mewn sawl ffordd. Hefyd i'r teulu a ffrindiau am y cymorth a'r gefnogaeth".*

Flwyddyn nesaf bwriad Dafydd ac Iestyn fydd rhannu car yn y gystadleuaeth hun.  Ni fu Dafydd wrth yr olwyn ers tair blynedd oherwydd cefnogi Iestyn felly mae'r amser wedi dod iddo yntau fwynhau ychydig o sbri hefyd.



# Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Hoffai'r Cyngor hysbysebu'r swyddi gwag canlynol

**Clerc (Rhan amser 4 – 8 awr wythnosol)**. Mae gan Gynghorau Llanpumsaint a Llanllawddog angen llanw swydd Clerc Rhan Amser.

- Sgiliau dwyieithog a phrofiad cymwys yn fanteisiol ond nid yn hanfodol - Gellir trefnu hyfforddiant. Oriau - 4 awr yr wythnos i bob Cyngor - felly 8 awr yr wythnos i'r ddwy swydd, gan weithio o adre yn hyblyg.
- Cyflog – pwyntiau ICI 7-12 - £20,444 yn flynyddol – hynny yw £2,210 – "2,440 i un Cyngor neu £4,880 y flwyddyn i'r ddau Gyngor.
- Gwahoddwn geisiadau i un neu'r ddau Gyngor.
- Am wybodaeth bellach gan gynnwys disgrifiad swydd a manylion cysylltwch â Kumi Ariyadasa Clerc Dros -dro i Gyngor Llanpumsaint ar 07799898002 neu clerk.llanpumsaint@ gmail.com Dylai ymgeiswyr wneud yn glir a ydynt yn ymgeisio am un neu'r ddwy swydd a chynnwys eu CV gyda llythyr. Dyddiad cau fydd y 6ed o Dachwedd 2022.

**Cyfethol Cynghorwr**. Mae'r Cyngor yn edrych at gyfethol dau gynghorwr fydd yn barod i gyfrannu at ein cymuned a gwaith y Cyngor.

- Sgiliau dwyieithog yn fanteisiol ond nid yn hanfodol. Swydd ddi-dâl fydd hon ond gellir ystyried costau. Gall yr amser amrywio ond fel arfer ddim mwy nag awr neu ddwy'r wythnos gan fynychu cyfarfodydd y Cyngor.
- Os am fwy o wybodaeth cysylltwch a'r Cadeirydd Cynghorwr Arwel Nicholas ar 01267281365 neu'r â'r Clerc dros-dro Kumi Ariyadasa ar 07799898002 neu clerk.llanpumsaint@gmail.com <mailto:clerk.llanpumsaint@gmail.com> erbyn y 6ed o Dachwedd.
- Bydd y Cyngor yn ystyried pawb sydd â diddordeb yn y ddwy swydd ac yn edrych am apwyntio yn eu cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Dachwedd 2022.

**Cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Dachwedd 2022** yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch. Cyhoeddir yr agenda wythnos cyn hynny a chroeso i bawb fynychu i weld y Cyngor wrth eu gwaith.

# Clwb Gwili Chwedeg

Gwnaeth ein haelodau fwynhau mas draw ein hymweliad a chanolfan ymwelwyr Bannau Brycheiniog er gwaethaf y tywydd. Er harddwch yr olygfa gyda'i llwybrau cerdded deniadol daeth y glaw a'r niwl i sbwylio popeth. Er hynny bu'r daith ar Reilffordd Bannau Brycheiniog yn bleserus dros ben gerllaw Merthyr Tudful. Yno gwelsom ddwy injan, un adeiladwyd yn yr Unol Daleithiau tua 1874, ar llall oddi yma tua'r un adeg. 'Roedd y ddwy yn disgleirio gyda'u pres llachar. Er i'r glaw a'r niwl barhau llwyddom i weld peth o'r golygfeydd godidog. Diweddwyd y dydd gyda phryd o fwyd campus yn y Bridge Llangennech.

Yn ein cyfarfod diweddaraf fe'm difyrrwyd gan Peter Huws Griffiths yn ei ffordd ddihafal ar y testun - Gwragedd yn fy mywyd. Eglurhad fu hyn o'r gwragedd dylanwadol wnaeth lywio eu bywyd cynnar ac a'i cynorthwyodd yn ei yrfa a'i fywyd wedyn.

Llun Hydref 24ain – Ralph Carpenter – Tynnwr Lluniau
Llun Tachwedd 28ain – Jeremy John - Gwallgofdy
Iau Rhagfyr 15fed - Cinio Nadolig - Gwesty'r Strade Llanelli

*Ceir gwybodaeth bellach oddi wrth Val Giles Ysgrifennyddes 01267 253194.* Estynnir croeso i aelodau newydd.

# Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud.  Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny.  Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau ,olew neu wifrau trydan.  Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy.  Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

Rhaglen 2022  - Cynhelir ein cyfarfodydd yn Neuadd Bronwydd  - cwrdd am 1.45yp i ddechrau am ddau o'r gloch.

- **Sul Hydref 23ain**  Y siaradwr ac awdur Dewi Bowen – **Hela'r Maen Mawr Gwyllt**.  Am wybodaeth bellach ewch i weld ei fidio  ar yr helfa gyda'i gyfeillion – https://www.youtube.com/watch?v=7kwXG18ees
- **Sul Tachwedd 27ain -** Bydd ein Hysgrifennydd Ros Briagha yn trafod ei gynllun diweddaraf - **Adeiladu Dolmen**.  Beddrod unigol yw hwn a gellir ei symud gyda dwy garreg syth yn ei chynnal.  Maent yn dyddio o'r cyfnod neolithig pan eu gorchuddiwyd gan bridd neu gerrig man i ffurfio gwyddfa.
- Rhagfyr – Dim cyfarfod

£12 am ymaelodi am flwyddyn ond £5 y cyfarfod wedi hynny, ac fe fydd yna gwpaned a bisgedi i'r fargen.  £6 y tro os nad ydych yn  aelod a hynny am ddau gyfarfod.   'Does dim angen cyfarpar jyst trowch lan.  Efallai bydd gwisgo mwgwd  a chadw pellter yn ofynnol o hyd os nad oes cyflwr meddygol yn eich eithrio.  Gwyliwch ein gwefan  - <http://westwalesdowsers.org.uk> neu ffoniwch *Sandy 01267 253547* *westwalesdowsers@gmail.com*

# Neges wrth Vi a Dave

Hoffwn ddiolch i'n holl ffrindiau am eu cymorth dros y misoedd diwethaf yma.  Chi'n gwybod pwy i chi! Gwerthfawrogwn hyn yn fawr sy'n profi pa mor arbennig yw'r ardal i ni'n byw ynddi. Diolch fyth mae popeth yn iawn nawr.  Diolch unwaith eto - Vi a Dave

# Noson Goffi a Chacennau

Cynhhaliodd Cór Llanpumsaint a'r Cylch Noson Goffi a Chacennau yn Neuadd Llanpumsaint nos Wener Medi 30 2022. Cafwyd ymateb teilwng iawn a gwnaed dros £500 o elw fydd yn mynd tuag at Apel Wcrain. Yn ogystal tynnwyd Raffl yr Urdd 2023 ac ar ól y sgwrsio a'r coffi cafwyd orrig fechan o adloniant. Yn ogystal a'r Cór cafwyd unawdau gan Maggie Jén Harding a Gerwyn Rhys a hefyd perfformiad gwych o glocsio gan Dion Jones. Diolch i Lynne James am gyfeilio a hefyd diolch enfawr i Sioned Page Jones am arwain y Cór ar fyr rybudd. Gan bod rhagor o arian i ddod i law fe fydd y swm terfynnol yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o'r Cylchgrawn hwn.

# Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y Neuadd Goffa ar y 1af o Orffennaf pan etholwyd y swyddogion canlynol - Cadeirydd Derrick Lock - Ysgrifennyddes Jill Ewards - Trysorydd Gethyn Edwards - Archwiliwr Huw Williams - Capten Peter Giles - Is-gapten Huw Williams - Swyddogion Diogelu Plant Derrick Lock a Huw Williams - Lluniaeth adeg gemau Jill Edwards.



Da fu gweld cymaint o frwdfrydedd yn ein gemau agoriadol ac nid oherwydd y te a'r coffi'n unig. Edrychwn ymlaen yn hyderus at ddyfodol disglair i'n haelodau newydd. Ar y 29ain o Fedi gwahoddwyd DOT (sef cylch Ieuenctid yr Eglwys) i flasu'r profiad o fowlio. Daeth naw ohonynt i roi tro arni ynghyd a thair mam a Max, cynrychiolydd yr Eglwys. Aeth dwy awr o fwynhad heibio'n gyflym, felly'r gobaith yw y daw rhai'n ôl ac efalle mam neu ddwy hefyd. Bydd yna groeso agored iddynt.

Cadwch lygad ar ein gwefan Llanpumsaintsmbc.org.uk am y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli.

*Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.*

# Curad Calon Llanpumsint - Lleoliadau'r Peiriannau Adfywio

- Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ
- Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU
- Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri SA33 6LD
- Tu fas Festri Capel Nebo SA33 6HN

Cofrestrir y 4 ar y Circuit cenedlaethol sydd ar restr y Gwasanaeth Ambiwlans pe bae galw'n dod. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o le mae'r un agosaf atoch pe bo angen. Nid oes angen cod i'w ddefnyddio a bydd y Gwasanaeth Ambiwlans ar gael i gynghori dros y ffon.

Byddwn yn cynnal cyrsiau hyfforddi nes ymlaen yn yr Haf gan gynnwys Adfywio Cardiopylmonari (CPR) a defnydd o'r Adfywiwr. Ond mae'n bwysig sylweddoli bod yr Adfwyiwr yn gallu eich siarad drwy'r holl ymarfer wrth i chi geisio arbed bywyd. Ni allwch wneud niwed i neb, gwneith yr Adfywiwr yn siŵr o hynny. Mae gennym hefyd Becyn Hyfforddi ellir eu defnyddio adref, felly rhowch wybod os am gael un.

***Carolyn Smethurst - 01267 253308***

# Banc Dillad

## *Neges ar ran Pwyllgor athrawon a Rhieni Ysgol Llanpumsaint*

Mae croeso i unrhyw un ddefnyddio’r banc dillad sydd wedi ei leoli tu allan i’r ysgol. Bydd cyfraniad ariannol o unrhyw gasgliadau yn dod o’r cwmni casglu dillad i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint.

Mae angen rhoi unrhyw ddillad mewn bagiau. Os yw’r banc yn llawn, mae manylion ar flaen y bin i ffonio neu mynd ar y wefan i gofrestru hyn (fel gwelir yn y llun isod). Gall unrhyw un sy’n defnyddio’r banc wneud hyn. Cod-post yr ysgol yw SA33 6BY, bydd angen hwn arnoch wrth gofrestru ei fod yn llawn.

Os yw’r banc yn llawn plis peidiwch gadael eich bagiau wrth ymyl y banc, ni fydd y dillad yn cael eu casglu os ydynt yn wlyb. Mae croeso i chi gadael unrhyw fagiau yn y shelter beiciau (yn y llun isod) os yw’r banc yn llawn. Diolch am eich cefnogaeth a chydweithrediad.








# Newyddion o’r Neuadd Goffa

Da gweld y Neuadd yn brysur gyda’r llogi unwaith eto, Y Bowlio Dan-Do yn ôl ac o’r newydd y Dosbarth Zumba, gyda nifer o weithgareddau cymunedol a phartïon yn cynyddu. Gwerthwyd pob tocyn gogyfer a noson teyrnged Robbie Williams  ar 22ain o Hydref.

- **Arwerthiant Ben Ford ar Sadwrn 22ain o Hydref** o 9yb hyd 12 yb. I logi Bord am £5 cysylltwch â Catrin ar 07772235243.
- **Gwasanaeth Sul y Cofio ar 13eg o Dachwedd** dan arweiniad y Parch Martin Williams o Saundersfoot.
- **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Neuadd Goffa Nos Iau am 8 o’r gloch 17eg o Dachwedd**.  Croeso i bawb yno gan eich atgoffa fod yna angen aelodau pwyllgor ac ymddiriedolwyr.

# Cyfnewidfa Gwybodaeth Gymunedol Llanpumsaint

Bu nifer fechan ohonom yn cyhoeddi Llais y Llan bob yn ail fis ers Ebrill 2010- gyda chymorth ein Pwyllgor bychan ag eraill o'r pentref a thu hwnt fu'n cyfrannu.  Diolch hefyd i'n hysbysebwyr, rhai ohonynt gyda ni ers y cychwyn cynta' yn ein bwydo a chyllid prin Chwyddwyd y gronfa gan y Cyngor Cymuned, cronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa a chyfraniadau trigolion yr ardal.

Dosberthir copïau drwy law i'r mwyafrif o dai o fewn y gymuned ac anfonir eraill drwy'r post i'r tu allan, gydag un i'r Llyfrgell Genedlaethol. Felly rhaid peidio anghofio ein gwirfoddolwyr wrth iddynt fynd o ddrws i ddrws rhyw 300 o ddrysu ymhob tywydd.

Ar y dechrau argraffwyd y Llais adre mewn du a gwyn ac mi gymerau rhyw 5 awr wrthi. Yna rhaid oedd plygu a chlymu am amser gyda'r coffi'n dderbyniol wrthi.  Felna y bu nes i ni ganfod ein hargraffwr presennol, sy'n gallu ychwanegu llyw ar well papur i'n cyflwyno a gwaith gorffenedig o safon.  A hyn oll yn rhatach na  hynt.

Erbyn hyn daeth Veronique i drosglwyddo' r copi gwreiddiol i ddogfen broffesiynol -rydym yn ddiolchgar iddi hithau am ei gwaith.  Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal gwefan www.llanpumsaint.org.uk <http://www.llanpumsaint.org.uk> - sef cartref gwefan y Cyngor Cymuned gyda lle i gylchoedd a hysbysebwyr rannu.

Byddwn yn cynnal CCB yn 23 Mis Tachwedd  am 8 o'r gloch yn y Neuadd Goffa. Croeso i bawb ac yn arbennig o ydych am ymuno a'r fenter.

***Carolyn***

# Rhagor o Sgamiau - Byddwch ar ddihun - Gwybodaeth o OFGEM

Mae'r sgamwyr wrthi eto, nawr yn llygadu cynnig i Lywodraeth i ysgwyddo baich costau ynni fel cyfle arall i'n twyllo.  Os daw neges (honedig wrth OFGEM)  nei E-bost yn gofyn i chi glicio cyswllt er mwyn cael eich trin, byddwch ofalus oherwydd gall fod yn sgâm.  Bydd eich cyflenwr yn cysylltu â chi felly peidiwch glicio.

Os nad ydych yn siŵr o neges E-bost yna cliciwch Reply, dylai hyn ddatgelu o ble ddaeth - peidiwch glicio SEND.  Os nad oes yna gyfeiriad llawn i OFGEM yna sgâm yw e'. Os daw un ffug i chi gwnewch yn siŵr i chi riportio fe i'r Llywodraeth er mwyn iddynt allu mesur maint y broblem. Gellwch wneud hyn drwy gysylltu â 7726 .  Gellir anfon negeseuon sgâm i report@fishing.gov.uk **<mailto:report@fishing.gov.uk>**

# Capeli

**Gwasanathau Capel Nebo:** Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.
**Capel Ffynnonhenri:** Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

**Caersalem**: Please contact Eleri Morris on 01267 253895 to find out time/location of up-coming services. We hope to have a Carol Service on December 18th in the chapel at 1.30. All welcome as usual!

# Pwyllgor Lles ac Adloniant (Maes Chwarae Llanpumsaint)

Unwaith eto cynhaliwyd Ras neu Gerdded Noddedig o amgylch y Cae Chwarae.  Codwyd £128 oedd yn cynnwys 173 lap.  Llai na llynedd ond mi lwyddodd y fenter i ddenu pobl allan i fwynhau'r Maes yn yr awyr iach. Rydym wedi dechrau cynllunio gogyfer a Gorymdaith Siôn Corn 2022, felly nodwch Noswyl Nadolig yn eich dyddiadur.  Daw gwybodaeth bellach yn rhifyn Rhagfyr o Lais y Llan.

Cadwch lygad ar wefan cymunedol Llanpumsaint am wybodaeth digwyddiadau ac ymgyrchoedd codi arian.  Mae yna gynllunio gogyfer a Noson Bastai yn nhafarn y Railwe ganol Tachwedd - dyddiad i'w gadarnhau.  Fel arfer mae'r Pwyllgor yn chwilio am wirfoddolwyr at gynnal a chadw'r Maes Chwarae. Os am gefnogi ewch i parcllanpumsaintpark@gmail.com <mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com> neu siarad ag Arfon Jones 07814157946 neu unrhyw aelod arall, am wybodaeth bellach.

# Clwb Cant Llanpumsaint

Llongyfarchiadau i enillwyr Mehefin, Gorffennaf ag Awst.

Mehefin: 1af £20 Keith Tozer (75) - Ail £15 Stuart James (98) - 3dd £10 John Richards 1
Gorffennaf: 1af £20 Danny Davies 46 – Ail 315 Paul & Juliet 80 – 3dd£10 Emma Clift 37
Awst: 1af £20 John Richards 1 – Ail £15 Rhodi Jones 66  - 3dd £10 Ann Wyke 28

Tynnir enillwyr am Fedi, Hydref a Thachwedd  fis nesaf. Cadwch lygad ar y wefan neu'r hysbysfwrdd er mwyn gweld pwy. Ceir gwybodaeth bellach oddi wrth aelodau'r Pwyllgor neu Wefan Llanpumsaint.



# Eglwysi Llanpumsaint Llanllawddog a Sant Celynin

Y ffordd orau o gadw lan a’r datblygiadau yw ymweld â Facebook <https://www.facebook.com/Llanpumsaintbronwyddllanllawddogchurches>

neu sbïo ar yr hysbysfyrddau

Gellir cysylltu gyda’r Parch Gaynor drwy e-bost gaynorjones-higgs@cinw.org.uk <mailto:gaynorjones-higgs@cinw.org.uk> neu ar 01267253158

**Gwasanaethau Diolchgarwch a digwyddiadau 2022**

- Yn dilyn dwy flynedd o Gyfnod Clo ymunodd rhyw 60 o'r cyfle i fwyhau Swper y Cynheuaf yn Neuadd Llanpumsaint.
- Nos Wener Hydref 14eg 6.30yh – Gwasanaeth Diolchgarwch yn Sant Celynin Bronwydd i’w ddilyn gan bryd o fwyd yn y Nantcelynen. Os am logi lle i fwyta cysylltwch ag Ann Smith warden yr Eglwys annp47@hotmail.co.uk

**Digwyddiadau cyffredinol yr wythnos a gwasanaethau**

- Dydd Mawrth 11.30 hyd 2.30yp Caffi Bach yn Eglwys Llanpumsaint
- Dydd Mawrth 4 hyd 5yp (adeg tymor yr ysgolion) Duw Chwarae. Amser storïau, myfyrdod wrth chwarae, celf a chrefft a lluniaeth i bawb o bob oed. Plant i’w gwarchod gan oedolion. Croeso i bawb.
- Dydd Mercher 9yb – Boreol Weddi yn Eglwys Llanpumsaint
- Dydd Iau 5.30 hyd 7.30yh - (adeg tymor yr ysgolion) Cylch Ieuenctid DOT i blant deg oed ac i fyny.

**Gwasanaethau’r Sul**

- 11 yb Sant Celynin
- 11yb Llanllawddog
- 2yp Llanpumsaint - ar yr 2ail, 16eg a’r 23ain o Hydref - Yna o’r !Af o Dachwedd ymlaen 9 yb.

**Dyddiadau ychwanegol i chi**

- Nos Wener Rhagfyr 9fed Cyngerdd Sant Celynin yn Neuadd Bronwydd.
- Mawrth Rhagfyr 20fed - Digwyddiad Carolau Nadolig yn Eglwys Sant Celynin

# Eglwys Y Goedwig – Mis Medi

Aeth ein taith gerdded Mis Medi a ni o'r Eglwys hyd Gapel Ffynnonhenri, gan ddilyn rhai o'r hen lwybrau. Cawsom ein tywys o amgylch y capel adeiladwyd yn 1735 ar safle unig oherwydd i'r Bedyddwyr yr adeg hynny gael eu herlid a'u carcharu am eu daliadau. Yfom ddŵr o'r nant ger y grisiau sy'n arwain lawr at safle'r bedyddio yno.

Cyn adeiladu'r Capel addolai'r bobl mewn tai a ffermydd. Yn lleol, yma Ffynnon (sef lleoliad y capel heddiw), Broneithin (Cwarre erbyn hyn), Nantgwyn, Glandwr a Lanychen (adfail nawr ger Fronheulog). Byddent yn cerdded o bell neu ar gefn ceffylau. Gan mae cyfyng oedd hi yn y capel rhaid oedd aros ar draed os nad oeddech yn fam neu blentyn. Cyn i Ffynnonhenri gael ei gofrestri rhaid oedd cerdded bob cam i Rydwilym yn Sir Benfro am y Cymun

Ystafell ysgol fu'r festri'n wreiddiol gyda stabl i'r ceffylau islaw adeg y gwasanaeth. Yn 1820 'roedd yna 400 aelod, gyda 360 yn 1869, ond erbyn heddiw 35 yn unig sydd. Un adeg bu Ffynnonhenri'n ddylanwadol iawn yn yr ardal , yn gyfrifol am sefydlu rhyw hanner dwsin i gapeli eraill gan gynnwys Caersalem yn Llanpumsaint.



*Croeso i Gapel Ffynnonhenri*
(Gaynor Jones-Higgs)



Ger Bedyddfan Capel Ffynnonhenri
(Gaynor Jones-Higgs)

# Zumba

Gan gwrdd ar Nos Fercher o 7 tan 8 o'r gloch bu Zumba yn ychwanegiad cyffroes i'r ardal. Bydd Stella ein hyfforddwraig yn ein hannog i chwifio'n breichiau a phlygu gliniau i annog y gwaed i redeg wrth i ni ddilyn ei symudiadau. Er yn araf ein cydsymud gwnawn lan am hyn gyda'n brwdfrydedd a'n hegni. Mae yna le o hyd i ymuno a'r 15 sydd yno'n barod yn wythnosol. Beth am ymuno a symud y cluniau yna am £6.



# Cerbyd Dai Twm

O’dd y brecs wedi bod yn whare lan am spel, a nawr mwy o gymhlethdod pan farwodd y batri. Byth yn brin o swllt neu ddoi pan o’dd angen peint. cyndyn iawn o’dd Dai i wario arian ar hen groc o gerbyd. Gan nad elai fyth ymhell o adre ac yn bendant ddim byth i’r dre, pan towli arian bant i brynu teiars iddi; dim ond cadw llygad mas am ambell gar Heddlu nawr ac yn y man. Fuodd e’n ffodus unwaith er hynny, pan feiodd gadno anweledig am landio lan ar ben clawdd ryw noson, a ffoi ar unwaith. Lwcus i fois Nebo garto’r cerbyd mas o’r ffordd cyn i’r Bobis weld i gyflwr e’.

Mantais fowr o alw yn nhafarn y Railwe Llanpumsaint oedd fod na le parcio weddol serth gyferbyn. Hon fu’r fynedfa i’r orsaf rheilffordd cynt, a holl brysurdeb ceffylau a thractorau yn mynd a dod ‘i’r COP y ffermwyr. Erbyn hyn gwagle llonydd o’dd ma, a lle parcio bendigedig. Lan a chi i’r top cyn troi a dod lawr yn araf bach nes i’r olwyn daro yn erbyn carreg fowr handi. O fanna lawr bydde digon o oledd i danio’r hen gerbyd, a tase hi’n pallu’r tro cynta bydde na ail gynnig lawr eto dan bont y rheilffordd. Alle dim bod yn well! ‘Nol gartre parcio ar dop y clos gan ofalu fod y whilber mas o’r ffordd, a bant a fe bob tro. Se hi’n pallu tano o’dd y Fergi Fach wastod gerllaw am blwc fach. Pwy ishe gwastraffu arian ar fatri arall pan fod popeth yn gwitho mor hwylus?

Prynhawn arall o drafod a llyncu gyda diaconiaid Bar y Railwe. Gadel wedyn ychydig yn llai sicr nac arfer oherwydd y chwisgis ychwanegol gan Gwyn Deri a Defi John Llath. Penblwydd un o’n nhw, ddim yn siwr pun! Falle oherwydd hynny, yn lle rhoi cic ysgafn i ddisodli’r garreg gan bwyll bach, gan roi amser iddo gamu miwn i’w sedd, rhoddodd Dai uffern o ergyd iddi. Bant a’th yr hen gerbyd lawr y tyle. Efallai fydde dyn sobor wedi llwyddo i neidio miwn, ond y gore alle Dai wneud o’dd gweiddi “Wow! Wow!”. Anwybyddwyd ei apêl yn llwyr wrth i’r Fan groesi’r hewl wag, wrth lwc, i daro yn erbyn mur cadarn y dafarn. ‘Roedd y difrod arni’n cadarnhau mae hon fu ei hymweliad olaf a’r ardalt. Y tu fewn i’r Bar rhyw glonc uchel rhywle tu fas gafodd y bai am i Gwilym fethu dwbwl un ar y bwrdd dartiau ac ildio peint i Handel. Unig sylw llygadog y Gwilym arall tu ôl i’r Bar oedd “Os rhywun arall biti fod yn wag!” Beth amser wedyn ychydig islaw pont y rheilffordd chwifiai bys bawd gobeithiol ar hyd heol wag.

***Arwyn 2022***